



**UMPA**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**16 Ionawr 2015**  
**Ystafell Bwyllgor**

---

**Presennol:**

Jacob Dafydd Ellis (JDE) – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr  
Miriam Williams (MW) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Will Atkinson (WA) – Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Harriet O’Shea (HO) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMPA  
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UMPA  
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMPA

**Skype**

Estelle Hart (EH) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
Peter Curran (PC) – Ymddiriedolwr Allanol UMPA arfaethedig (sylwedydd yn unig)

**Yn gwasanaethu:**

Annamarie Evans – Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA  
Tony Bickley – Cydlynnydd Digwyddiadau UMPA (yn bresennol ar gyfer y Cyflwyniad ar Ddigwyddiadau'n unig)

Croesawodd JDE bawb i'r cyfarfod, a gofynnodd i bob aelod gyflwyno eu hunain.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Sam Bache – Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

**2. Datganiad o Fuddiannau**

Cyhoeddodd JDE fod ganddo fuddiannau o ran eitem 15 ar yr agenda, Adolygiad o Rôl y Swyddogion.

**3. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd 3 Hydref 2014**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2014 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**Cynigiwyd: GB**

**Eiliwyd: HO**

**4. Busnes y Cadeirydd**

Darparodd y Cadeirydd y Bwrdd â'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau Campws Mauritius, sydd i agor fis Medi eleni. Esboniodd fod cais wedi dod i ni gynhyrchu llawlyfr sy'n amlinellu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a beth rydyn ni'n credu byddai'n arfer da. Nododd bod yno'n dal i fod amryw o gwestiynau heb eu hateb a phenderfyniadau i'w gwneud gan y Brifysgol, ond y bydd yn parhau i ddiweddarau'r bwrdd fel a phan fydd gwybodaeth ar gael. Gofynnodd a oedd gan unrhyw un Gysylltiadau Rhyngwladol a/neu arferion gorau a allai fod yn ddefnyddiol. Nododd EH y byddai hi'n darparu'r Cadeirydd â chysylltiadau ar ôl y cyfarfod.

**Gweithredu - EH**

Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o bwysigrwydd ei hysbysu ef neu Annmarie os nad ydych yn gallu mynychu cyfarfod. Mae'r dyddiadau'n cael eu cynllunio'n ddigon pell ymlaen llaw i ganiatáu i chi anfon eich ymddiheuriadau mewn da bryd.

### **Nodwyd**

## **5. Materion yn Codi**

### **Y Diweddaraf ynglŷn â swydd Cydlynnydd Cynrychiolaeth Academaidd**

Rhoddodd AM yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynglŷn â'r posibilrwydd o'r Brifysgol yn ariannu rôl y Cydlynnydd Cynrychiolaeth Academaidd. Nododd ei fod wedi e-bostio John Grattan yn Nhachwedd ynglŷn â hyn, ac mae John Grattan wedi ei hysbysu y gallai cronfa fod ar gael y gellid gwneud cais am arian ohoni i gyllido'r rôl. Yn y cyfamser, mae'r aelod staff wedi derbyn cytundeb chwe mis, sy'n dod i ben ym Mehefin.

Nododd EH bod rhaid i hyn fod yn rhan o drafodaeth ehangach wrth i ni edrych ar rôl swyddogion/gwasanaethau.

### **Nodwyd**

## **6. Ymddiriedolwyr Allanol**

Ar ran y Pwyllgor Penodiadau, gofynnodd JDE i'r Bwrdd gymeradwyo penodiad Mr Peter Curran, Cyfarwyddwr Cyllid Chwaraeon Cymru, fel Ymddiriedolwr Allanol UMPA.

### **Cymeradwywyd yn Unfrydol**

Dywedodd EH fod rhaid i ni frysio i benosi'r Ymddiriedolwr Allanol olaf, ond y dylem fod yn ofalus bod Aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli ein holl fyfyrwyr. Awgrymodd EH y dylem gael dyfynbris ar gyfer recriwtio drwy asiantaeth recriwtio arbenigol. Bydd JG yn anfon y dyfynbrisiau o amgylch y bwrdd drwy e-bost.

### **Gweithredu - JG**

## **7. Adroddiad Ariannol**

Trafododd CH y cyrifon a gyflwynwyd o'r blaen ar gyfer Tachwedd 2014, ac eglurodd ein bod ni'n dal i gollu incwm yn sgil lleihad mewn niferoedd myfyrwyr yn erbyn ffigurau'r gyllideb roeddem wedi'u darogan. Serch hynny, hysbysodd CH y Bwrdd bod danfoniadau pizza wedi bod yn llwyddiannus dros ben, sydd wedi arwain at Stone Willy's yn gwneud mwy o fusnes na'r hyn a ragwelwyd. Hefyd hysbyswyd y Bwrdd ein bod ni wedi cymryd drosodd y bar ym Mrynamlwg, ac er ein bod ni ar hyn o bryd yn dangos colledion o £1k, nid yw ond wedi bod yn agored ers Tachwedd, a bydd hyn yn gwella o fis i fis wrth i fusnes gynyddu.

Hysbysodd CH y Bwrdd ei bod wedi ailddarogan y gyllideb, gyda nifer llai o fyfyrwyr, sy'n dangos bwlch ariannol o £46k ar gyfer y flwyddyn.

Gofynnodd pa fesurau oedd ar y gweill i geisio adfer y sefyllfa hon lle'r oedd hynny'n bosib.

Esboniodd JG bod y costau gwerthiant a chymhareb cyflogau wedi gwella'n sylweddol o gymharu â 2013/14 sy'n dangos ein bod ni'n masnachu'n fwy effeithiol er gwaethaf y niferoedd isel.

Awgrymodd PC ein bod yn edrych ar grantiau ac yn ei gwneud yn eglur mewn cyfarfodydd Cyllid a Strategaeth â'r Brifysgol ein bod ni wedi cymryd pob camau posib i osgoi'r bwlch cyllido hwn.

Hefyd bod y gyllideb yn seiliedig ar 500 yn llai o fyfyrwyr, fel y darparwyd yn y Camau Cynllunio, er gwaethaf y ffaith bod y cwmp yn y nifer o fyfyrwyr mewn gwirionedd yn 1,000.

### **Nodwyd**

## **8. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Rhoddodd JG grynodedb o'i adroddiad, a gyflwynwyd eisoes. Roedd hwn yn ymwneud â Masnachu, Arolwg Ymgysylltiad y Staff, yr ACF ac Adnoddau Dynol. Gosododd bwyslais arbennig ar faint o'i amser sy'n cael ei dreulio ar faterion Adnoddau Dynol, ac esboniodd ei fod ar hyn o bryd yn edrych ar gost cwblhau gwerthusiad swyddi, yn erbyn cost bod ag aelod staff AD penodol, a bydd yn cynnig yr opsiwn hwn i'r staff.

**Nodwyd**

## **9. Y Diweddaraf ar DPA Gweithredol**

Darparodd JG y Bwrdd â Chynllun Gweithredu wedi'i ddiweddarau, ac esboniodd y byddai'r DPA yn cael eu newid pan gaiff y gwelliannau i'r Cynllun Strategol eu cymeradwyo.

**Nodwyd**

## **10. Adolygiad o'r Gofrestr Risg**

Rhoddodd JG drosolwg o'r Gofrestr Risg wedi'i diweddarau. Gofynnodd EH am gael adran ar y risg sy'n gysylltiedig â Siaradwyr Allanol wedi'i hychwanegu erbyn y cyfarfod nesaf. Mae gan UCM rai templedi y gellir eu defnyddio i helpu adeiladu hyn.

**Gweithredu - JG**

Nododd WA bod Tîm y Swyddogion wrthi'n cwblhau Polisi Cydraddoldeb ac Amrywioldeb, â'r nod o sicrhau ei fod mewn lle erbyn dechrau'r haf. Cynigiodd EH ei chefnogaeth ar gyfer hyn.

**Nodwyd**

Holodd PC ynglŷn â risgiau 8 a 9 yn Adran 1 o'r gofrestr risg. Byddai effaith y cwmp mewn niferoedd myfyrwyr yn cynyddu'r risg o eitem 8 i 20. Caiff y gofrestr ei newid i adlewyrchu hyn.

Nid yw'r cynllun Dilyniant Busnes y cyfeiriwyd ato yn risg 9 eto wedi cael ei adolygu gan y Bwrdd; bydd hwn ar gael i'w adolygu ar gyfer cyfarfod mis Mawrth.

**Gweithredu - JG**

## **11. Cyflwyniad Digwyddiadau**

Roddodd Tony Bickley, Cydlynnydd Digwyddiadau, gyflwyniad i hysbysu'r Bwrdd o'r dirywiad mewn digwyddiadau min-nos, a bod strategaeth wedi cael ei gweithredu i ymladd hyn.

Nododd EH bod rhai Undebau Myfyrwyr eraill wedi canslo Tony Lee, gan eu bod y teimlo bod yr act yn amhriodol.

**Nodwyd**

Diolchodd JDE i Tony ar ran y Bwrdd am ei holl waith ar Ddigwyddiadau.

## **12. Trafodaeth Digwyddiadau/Barrau**

Amlinellodd JG yr adroddiad roedd wedi'i gyflwyno, a gofynnodd i'r Bwrdd ystyried/trafod rôl Undeb y Myfyrwyr o ran barrau a digwyddiadau yng ngoleuni'r dirywiad mewn perfformiad masnachol.

Estynnodd JDE wahoddiad i'r Bwrdd gael trafodaeth agored, a gwnaed amryw o awgrymiadau. Yn gyffredinol, teimlwyd y dylem ganolbwyntio ar gynnal y prif ddigwyddiadau'n unig - h.y. Wythnos y Glas, Rygbi 7-bob-ochr, Superteams - a gosod y gofod ar gyfer cynadleddau.

Nododd EH ei bod yn teimlo bod hyn yn rhan o drafodaeth ehangach sydd angen edrych arno dros yr ychydig gyfarfodydd nesaf, yn ogystal ag ystyried beth rydym am i'r Undeb fod, a beth ddylai ei swyddogaeth fod. Gyda'r posibilrwydd o niferoedd myfyrwyr is eto'r flwyddyn nesaf, mae'n bwysig i ni siarad â myfyrwyr a chwblhau arolwg / casglu data ansoddol ar beth mae myfyrwyr am ei wneud â chyfleusterau'r Undeb.

### **Gweithredu - Swyddogion/Cyfredol**

#### **13. Cynllun Strategol wedi'i Newid**

Cyflwynodd JG'r Cynllun Strategol wedi'i newid ac esboniodd gan ein bod ni 50% drwy gylchred bywyd y Cynllun, ei bod yn ddoeth ei ddiweddarau o gofio'r amrywiaeth o fân newidiadau a blaenoriaethau cyfnewidiol Timoedd Swyddogion ers y cyhoeddwyd y ddogfen yn wreiddiol. Hysbysodd y Bwrdd ynglŷn â'r gwelliannau a wnaed, ac esboniodd y canlynol: o blith y 6 thema allweddol, mae 'Cyflogadwyedd' wedi cael ei ddisodli â 'Chydraddoldeb', ac mae rhai o'r deilliannau cyflogadwyedd bellach yn perthyn i'r adran 'Cyfleoedd'.

Dan Thema Allweddol 3, 'Cydraddoldeb', gofynnodd EH am gael ychwanegu adran ar gyfer Grwpiau Rhyddhad i redeg ymgyrch yn yr Undeb o leiaf unwaith y flwyddyn.

### **Gweithredu - JG**

Dan Thema Allweddol 4, 'Cyfleusterau', trafododd y Bwrdd fynd ati i gael adborth gan fyfyrwyr ynglŷn â'r hyn maen nhw am i'r cyfleusterau eu darparu. Atebodd bod hyn yn cael ystyriaeth yn un o'r cwestiynau yn arolwg yr holl fyfyrwyr sy'n cael ei lansio 9 Chwefror.

Nododd PC, yn ystod cyfarfodydd Cylch Cynllunio â'r Brifysgol, y byddai'n ddefnyddiol gofyn ble maen nhw o ran cyllido dyledion i alluogi'r rhaglen ystadau/cyfalaf. Dylai'r cyflwyniad i'r Cylch Cynllunio adlewyrchu'r canlyniad y gellir ei ddisgwyl.

### **Nodwyd**

Esboniodd EH y dylem efallai edrych ar gyflogadwyedd ymhellach yn nhermau defnyddio sgiliau ein staff ein hunain e.e. y Gweithredwr Marchnata Digidol i helpu/hyfforddi myfyrwyr i'w darparu â sgiliau meddal ac adeiladu hyder.

### **Nodwyd**

#### **14. Y Diweddaraf ar y Cyfansoddiad**

Esboniodd AM fod strwythur newydd ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cael ei gynnig i Gyngor yr Undeb, lle cafodd y Cyfansoddiad ei newid, yn ogystal ag atodlen 1.3. Cymeradwywyd y newidiadau hyn a gofynnodd JDE i'r Bwrdd am gymeradwyaeth derfynol cyn eu cyflwyno i Fwrdd Llywodraethu'r Brifysgol am gymeradwyaeth.

### **Cymeradwyaeth y Bwrdd**

Aeth AM drwy'r cynigion o Gyngor yr Undeb, a gofynnodd y Bwrdd os gellid yn y dyfodol ond cyflwyno cynigion sydd wedi cael eu pasio.

### **Nodwyd**

#### **15. Adolygiad o Rôl y Swyddogion**

Gan fod JDE wedi nodi buddiannau yn yr eitem hon, trosglwyddwyd dyletswydd y Cadeirydd i GB.

Aeth WA drwy ei gynnig i ddileu hierarchiaeth yn Nhîm y Swyddogion. Gofynnwyd i'r Bwrdd drafod y cynnig a phleidleisio arno. Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunodd y Bwrdd y byddai JG yn cymryd drosodd dyletswyddau Rheolaeth Linell dros y Swyddogion o ddydd i ddydd.

Yn nhermau rolau Swyddogion/strwythur, roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen i hyn fod yn rhan o drafodaeth ehangach, y byddai angen i rywun allanol ei threfnu.

**Cyfredol**

#### **16. Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Cyflogau**

Estynnodd JDE wahoddiad i'r Bwrdd benodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cyflogau. Cynhaliwyd pleidlais ac etholwyd Peter Curran yn unfrydol fel Cadeirydd.

**Nodwyd**

#### **17. Memorandwm Cytundeb UMCA ac UMPA**

Hysbyswyd y Bwrdd am drafodaethau parhaus rhwng UMCA ac UMPA ynglŷn â'u perthynas. Dros y 40 mlynedd diwethaf, ni fu cytundeb cadarn o'r fath, ac mae'r berthynas wedi bod yn fregus ar adegau. Mae'r Tîm Swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio ar gytundeb, a byddant yn diweddarau'r Bwrdd fel a phan fydd unrhyw beth i adrodd yn ôl arno.

**Nodwyd**

#### **18. Unrhyw fusnes arall**

Hysbysodd JDE y Bwrdd bod Tîm y Swyddogion wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu Papur-newydd Undeb y Myfyrwyr yn amlinellu'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni a'r hyn sy'n digwydd am weddill y semester.

**Nodwyd**

**Gweinyddiaeth** – A fyddech cystal â darparu papurau erbyn y dyddiadau a roddir gan Annmarie.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **ddydd Gwener 13 Mawrth** am **10:00am**  
yn **Ystafell Bwyllgor** Undeb y Myfyrwyr